


A large, solid yellow triangle is positioned on the left side of the page, pointing towards the right.

Polisi Hawl Dioddefwyr i Adolygiad

Awst 2026

Cynnwys

Cynnwys	2
Cefndir	3
Cwmpas Hawl y Dioddefwyr i Adolygiad (VRR)	3
Pwy all wneud cais am Hawl Dioddefwyr i Adolygiad?	4
Hysbysu'r dioddefwr o'i hawl i adolygiad	5
Y broses o arfer yr hawl i adolygiad	5
Ceisiadau ar ôl y terfyn amser	6
Y cyd-gysylltiad â phenderfyniadau eraill	7
Yr adolygiad	8
Pwy fydd yn gyfrifol?	8
Pa mor hir fydd yr adolygiad yn cymryd?	8
Pa ddeunydd y bydd yr adolygydd yn ei ystyried?	8
Pa safon fydd yn cael ei gymhwyso?	8
Cam 1: A yw'r amodau atgyfeirio wedi'u bodloni?	9
Cam 2: A oedd y penderfyniad atgyfeirio gwreiddiol yn anghywir?	10
Cadw cofnodion	10
Nodi camau ymchwilio pellach a/neu wneud penderfyniadau anghywir	11
Geirfa	11

Cefndir

Mae IOPC wedi gweithredu proses Hawl Dioddefwyr i Adolygiad (VRR) ers 2020. Fe'i cyflwynwyd i sicrhau bod dioddefwyr sy'n honni bod ymddygiad troseddol wedi'i gyflawni gan swyddogion neu staff yr heddlu o fewn ymchwiliadau annibynnol, rheoledig, neu sy'n cael eu cyfarwyddo gan IOPC, fynediad at fecanwaith adolygu tebyg i'r hyn sydd ar gael i ddioddefwyr troseddau a gyflawnir gan aelodau o'r cyhoedd o dan gynllun VRR y CPS.

Ers hynny, mae VRR wedi cael ei roi ar seiliau statudol trwy ddiwygiadau i Atodlen 3 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, a wnaed gan adran 199 o'r Ddeddf Troseddu a Phlisma 2026.

Cwmpas Hawl Dioddefwyr i Adolygiad (VRR)

Mae paragraff 23A o Atodlen 3 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol gynnig cyfle i ddioddefwyr ofyn am adolygiad pan fydd y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn bwriadu peidio ag atgyfeirio achos at y CPS.

Mae'r VRR yn berthnasol pan, yn ystod ymchwiliad, mae person wedi cael gwybod eu bod yn destun ymchwiliad troseddol. Mae hyn dim ond yn berthnasol i ymchwiliadau sy'n ymwneud â materion a gofnodwyd fel troseddau troseddol yn unol â'r Safon Cofnodi Troseddau Cenedlaethol.

Nid yw'r achosion canlynol yn dod o fewn cwmpas y VRR:

- Achosion lle mae penderfyniad wedi'i wneud i atgyfeirio at y CPS ar ôl cwblhau ymchwiliad, ond lle nad yw'r atgyfeiriad hwnnw'n ymwneud â **holl** destunau'r ymchwiliad troseddol. Fodd bynnag, pan does **dim** o'r testunau a/neu faterion a atgyfeiriwyd yn ymwneud â'r digwyddiad (honedig neu fel arall) a effeithiodd ar ddioddefwr penodol, bydd y dioddefwr hwnnw'n cadw'r hawl i adolygiad.
- Achosion lle gwnaethpwyd atgyfeiriad at y CPS ar gyfer penderfyniad cyhuddo cyn i'r ymchwiliad gael ei gwblhau; roedd y penderfyniad cyhuddo hwnnw'n negyddol, ac nid oes unrhyw newid sylweddol wedi bod yn y dystiolaeth ers hynny.

Dylid nodi, os oes atgyfeiriad wedi cael ei wneud i'r CPS ac mae'r CPS wedi gwneud penderfyniad i beidio ag erlyn, yna bydd y dioddefwr yn cael ei gyfeirio at Gynllun VRR y CPS.

Pwy all wneud cais am Hawl Dioddefwyr i Adolygiad?

Mae gan unrhyw ddioddefwr hawl i geisio adolygiad o benderfyniad i beidio â gwneud atgyfeiriad at y CPS.

At ddibenion VRR, mae IOPC yn cymhwyso'r diffiniad o ddioddefwr a nodir yn adran 1 o Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 ('y Ddeddf') ac a adlewyrchir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau (Cod Dioddefwyr).

Mae'r Ddeddf yn diffinio "dioddefwr" fel person sydd wedi dioddef niwed (gan gynnwys niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol, neu golled economaidd) o ganlyniad uniongyrchol i fod yn destun ymddygiad troseddol¹, neu un neu fwy o'r amgylchiadau canlynol -

- a) lle mae'r person wedi gweld, clywed, neu fel arall wedi profi effeithiau ymddygiad troseddol ar yr adeg pan ddigwyddodd yr ymddygiad;
- b) lle roedd genedigaeth y person yn ganlyniad uniongyrchol i ymddygiad troseddol;
- c) lle roedd marwolaeth aelod agos o deulu² y person yn ganlyniad uniongyrchol i ymddygiad troseddol;
- d) lle mae'r person yn blentyn sy'n ddioddefwr cam-drin domestig sy'n gyfystyr ag ymddygiad troseddol³.

Gall dioddefwr arfer yr hawl i adolygu, p'un ag ydynt wedi gwneud adroddiad o drosedd ai peidio.

Gall yr hawl i adolygiad gael ei arfer gan rywun sy'n gweithredu ar ran dioddefwr mewn amgylchiadau priodol. Dylid ystyried hyn fesul achos, a bydd angen awdurdodiad ysgrifenedig gan y dioddefwr yn gyffredinol oni bai nad yw hyn yn bosib, er enghraifft, oherwydd oedran neu anabledd y dioddefwr. Ni chaniateir ceisiadau ar ran dioddefwr lle mae'r dioddefwr wedi tynnu'n ei gefnogaeth o'r ymchwiliad yn ôl.

Pan fydd y dioddefwr o dan 18 oed, bydd IOPC, yn unol â'r Cod Dioddefwyr, yn cadw buddiannau gorau'r dioddefwr fel y brif ystyriaeth.

¹ Mae hyn yn cynnwys troseddau a gyflawnwyd yn ddiafwrwybod i'r dioddefwr. Gall y niwed gael ei achosi yn yr amgylchiadau hynny pan fydd y person yn cael ei wneud yn ymwybodol o'r drosedd.

² Mae hyn yn cynnwys gwr neu gwraig, partner, perthnasau uniongyrchol, gwarcheidwaid, brodyr a chwiorydd, dibynyddion a pherthnasau eraill sy'n ofalwyr.

³ Mae'r diffiniad o ddioddefwr hefyd yn cynnwys person sydd wedi bod yn dyst i ymddygiad troseddol.

Lle'n berthnasol, dylid ystyried unrhyw gymorth ychwanegol a allai fod ei angen gan ddioddefwr agored i niwed⁴.

Hysbysu'r dioddefwr o'i hawl i adolygiad

Mae'n ofynnol i'r prif ymchwilydd hysbysu'r dioddefwr o'r penderfyniad arfaethedig i beidio ag atgyfeirio mater at y CPS. Ar yr adeg hon, bydd y prif ymchwilydd hefyd yn hysbysu'r dioddefwr o'u hawl i adolygiad. Mae taflen wybodaeth ar gael a dylid ei hanfon at y dioddefwr gyda'r hysbysiad hwn. Bydd yr awdurdod priodol (AP) ac unrhyw berson perthnasol arall hefyd yn cael eu hysbysu o'r penderfyniad arfaethedig a chymhwysedd y broses VRR.

Rhaid darparu digon o wybodaeth mewn perthynas â'r penderfyniad i beidio ag atgyfeirio'r mater at y CPS i'r dioddefwr i'w alluogi i ystyried a phenderfynu a ddylid gofyn am adolygiad. Fodd bynnag, ni fydd gwybodaeth o'r fath yn cael ei ddatgelu pan fydd yn angenrheidiol ar gyfer:

- a) atal datgelu gwybodaeth sy'n berthnasol i, neu y gellir ei defnyddio mewn unrhyw achos troseddol gwirioneddol neu bosib;
- b) atal datgelu gwybodaeth mewn unrhyw amgylchiadau pan fydd peidio â datgelu -
 - i) er budd diogelwch cenedlaethol;
 - ii) at ddibenion atal neu ganfod trosedd, neu arestio neu erlyn troseddwy;
 - iii) yn ofynnol ar seiliau cymesuredd, neu
 - iv) fel arall yn angenrheidiol er budd y cyhoedd.

Bydd peidio â datgelu yn cael ei ystyried yn angenrheidiol dim ond os:

- a) mae risg wirioneddol bydd datgelu'r wybodaeth honno yn achosi effaith niweidiol, a
- b) byddai'r effaith niweidiol hwnnw'n sylweddol.

Rhaid i unrhyw ddatgeliad gydymffurfio â chyfraith diogelu data.

Y broses o arfer yr hawl i adolygiad

Rhaid gofyn am adolygiad o fewn 28 diwrnod calendr o ddyddiad y llythyr yn hysbysu'r dioddefwr o'u hawl i adolygu, yn amodol ar eithriadau cyfyngedig.

⁴ Mae gan berson sy'n bodloni'r diffiniad ar y sail hon yr hawl i gael mynediad at wasanaethau cymorth o dan y Cod Dioddefwyr.

Pan fydd llai nag un mis calendr cyn diwedd y terfyn amser statudol (STL) ar gyfer troseddau diannod, byddwn yn gofyn i geisiadau VRR gael eu cyflwyno yn gynt, er mwyn i'r gais gael ei ystyried cyn i'r STL ddod i ben. Os na dderbynnir cais o fewn yr amserlen benodedig, bydd y penderfyniad atgyfeirio arfaethedig yn cael ei gadarnhau, a bydd y dioddefwr, y pwnc a'r AP yn cael eu hysbysu yn unol â hynny.

Fel arfer, dylid gwneud cais am adolygiad yn ysgrifenedig, boed hynny drwy e-bost neu lythyr. Fodd bynnag, caiff ceisiadau trwy ddulliau eraill, er enghraifft cais llafar, eu derbyn os byddai'r dioddefwr fel arall dan anfantais.

Gall y dioddefwr arfer ei hawl trwy gais syml; nid yw'n angenrheidiol i resymau neu ddadleuon gael eu cyflwyno. Fodd bynnag, bydd unrhyw sylwadau a wneir o fewn yr amserlen benodedig yn cael eu hystyried o fewn yr adolygiad.⁵

Bydd pob cais yn cael ei gofnodi wrth ei dderbyn a'i ddyrannu i'r adolygydd addas nesaf sydd ar gael.

Dylid hysbysu'r pwnc a'r AP am unrhyw geisiadau VRR a dderbyniwyd a chanlyniadau posib adolygiad cyn gynted â phosib.

Ceisiadau ar ôl y terfyn amser

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y derbynnir unrhyw gais am VRR a gyflwynir ar ôl y terfyn amser cymwys o 28 diwrnod calendr, ac yn ddarostyngedig i derfyn absoliwt o dri mis o ddyddiad y llythyr hysbysu. Bydd cais a gyflwynir ar ôl y terfyn amser yn cael ei ddyrannu i adolygydd annibynnol yn y modd arferol, a fydd yn ystyried amgylchiadau penodol yr achos, hyd yr oedi, ac unrhyw resymau a roddir dros hyn.

Bydd yr adolygydd yn penderfynu yn gyntaf a ydyw, o dan yr holl amgylchiadau, yn briodol i adolygiad gael ei gynnal. Os na, bydd y dioddefwr yn cael ei hysbysu yn unol â hynny. Gellir ystyried amgylchiadau yn 'eithriadol' pan, er enghraifft:

- Mae'r dioddefwr wedi bod yn yr ysbyty, ac nid yw wedi gallu ymateb;
- Mae'r dioddefwr yn y carchar, ac ni roddwyd hysbysiad o'r penderfyniad arfaethedig tan ar ôl y dyddiad cau ymateb;
- Mae'r dioddefwr yn dioddef o broblem iechyd meddwl, ac oherwydd hyn nid oedd yn gallu ymateb o fewn yr amserlen a ganiateir.

Wrth gwrs, lle'n berthnasol, dylid gwneud addasiadau rhesymol yn unol â'r *Deddf Cydraddoldeb 2010*.

Os derbynnir y gais 'allan o amser', bydd yr adolygydd yn mynd ymlaen i ystyried y mater yn y modd arferol, fel y nodir isod. Fodd bynnag, rhaid ystyried yr oedi wrth

⁵ Gall yr adolygydd ystyried sylwadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad terfyn perthnasol, yn ôl eu disgrisiwn.

gyflwyno'r VRR pan fydd yr adolygydd yn penderfynu a yw'n 'briodol' i'r mater gael ei atgyfeirio at y CPS. Mae hyn yn bennaf oherwydd bydd y penderfyniad i beidio ag atgyfeirio'r mater at y CPS wedi cael ei gadarnhau a'i gyfathrebu i'r person. Rhaid ystyried unrhyw oblygiadau ar gyfer achosion eraill hefyd. Yn y pen draw, rhaid i'r adolygydd asesu a yw hyder y cyhoedd yn y system gwynion am yr heddlu yn gofyn am atgyfeiriad at y CPS ym mhob un o'r amgylchiadau.

Mae er budd y cyhoedd i sicrhau bod y CPS yn gallu gwneud penderfyniadau cyhuddo mewn achosion priodol ac mewn cadw hyder ymhlith achwynwyr a phobl eraill sydd â buddiant ynghylch ein ymchwiliadau a'n penderfyniadau. Rhaid cydbwysu hyn yn erbyn yr angen am sicrwydd wrth wneud penderfyniadau mewn cyrff cyhoeddus a'r risg o gam-drin y broses lle mae penderfyniadau terfynol yn cael eu hail-archwilio.

Efallai y bydd angen gorchymyn gan yr Uchel Lys sy'n diddymu'r penderfyniad terfynol i beidio â chyfeirio achos i'r CPS cyn y gellir gwneud atgyfeiriad.

Y cyd-gysylltiad â phenderfyniadau eraill

Fel uchod, dylid hysbysu'r AP ac unrhyw berson bod posibilrwydd o herio penderfyniad arfaethedig y CPS o atgyfeirio trwy VRR, sydd fel arfer yn gallu cael ei arfer o fewn 28 diwrnod calendr.

Gofynnir i'r AP roi eu barn ynghylch a yw'n gallu mynegi ei farn o dan baragraff 23(5A) o Atodlen 3 y PRA ar y materion disgyblu a pherfformiad sy'n deillio o'r ymchwiliad.

Mae IOPC o'r farn y bydd yn anarferol iawn i benderfyniadau ynghylch materion disgyblu gael eu gohirio hyd nes y bydd y broses VRR yn cael ei gwblhau. Os ystyrir hyn, mae IOPC yn annog APau i gymryd rhan mewn trafodaeth agored yn hyn o beth. Lle'n briodol, efallai bydd IOPC yn cytuno i estyniad gael ei roi y tu hwnt i 28 diwrnod calendr o dan Rheoliad 27(5) Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2020, fel yn berthnasol.

Mae IOPC yn nodi canllawiau statudol y Swyddfa Gartref ar Safonau Proffesiynol, Perfformiad ac Uniondeb mewn Plismona⁶ yn pwysleisio y bydd disgwyl i faterion disgyblu fynd yn eu blaen er gwaethaf y posibilrwydd o erlyniad troseddol.

Fodd bynnag, mewn achosion priodol gellir defnyddio Rheoliad 10 Rheoliadau Heddlu (Ymddygiad) 2020, fel sy'n berthnasol, er mwyn amddiffyn yn erbyn rhagfarnu achosion troseddol.

⁶ Canllawiau Statudol y Swyddfa Gartref ar Safonau Proffesiynol, Perfformiad ac Uniondeb mewn Plismona, paragraffau 7.81–7.83.

Bydd IOPC yn annog ac yn disgwyl deialog agored gyda'r AP mewn perthynas â'r materion hyn.

Bydd IOPC yn sicrhau bod y person sy'n destun a'r dioddefwr yn cael eu diweddarau am y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud, y prosesau sy'n cael eu dilyn, a'r amserlenni perthnasol.

Yr adolygiad

Pwy fydd yn gyfrifol?

Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal gan adolygydd annibynnol. Rhaid i'r adolygydd:

- i) fod o radd gyfartal neu'n uwch na'r penderfynwr cychwynnol lle'n bosib;
- ii) beidio bod wedi cael unrhyw gyfrifoldeb i wneud penderfyniadau yn yr ymchwiliad;
- iii) fod heb unrhyw wrthdaro buddiannau perthnasol, yn unol â pholisi IOPC.

Pa mor hir fydd yr adolygiad yn cymryd?

Dylid cwblhau'r adolygiad, lle bynnag sy'n bosib, o fewn 28 diwrnod calendr o ddyddiad y cais. Bydd y dioddefwr, y testun, yr AP ac unrhyw berson perthnasol arall yn cael eu diweddarau os rhagwelir na fydd y dyddiad cau hwn yn cael ei fodloni a bydd yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd ar ôl hynny ynghylch y cynnydd.

Dylid cyflymu adolygiadau lle mae risg y bydd y dyddiad cau ar gyfer cyhuddo trosedd ddiannod yn dod i ben yn ystod y cyfnod ar gyfer yr adolygiad. Dylai'r adolygydd ystyried cysylltu â'r CPS mewn amgylchiadau o'r fath.

Pa ddeunydd y bydd yr adolygydd yn ei ystyried?

Dylid rhoi'r adroddiad terfynol a'r penderfyniad arfaethedig i'r adolygydd, a chael mynediad i'r holl ddeunydd a oedd ar gael i'r penderfynydd gwreiddiol. Dylid hefyd roi unrhyw sylwadau a wneir gan neu ar ran y dioddefwr i'r adolygydd.

Pa safon fydd yn cael ei gymhwyso?

Bydd yr adolygiad yn cynnwys dau gam:

1. A yw'r adolygydd o'r farn bod yr amodau atgyfeirio wedi'u bodloni?

2. Os ydy, a yw'r adolygydd o'r farn bod y penderfyniad atgyfeirio gwreiddiol yn anghywir?⁷

Cam 1: A yw'r amodau atgyfeirio wedi'u bodloni?

Bydd yr adolygydd yn ystyried yr achos o'r newydd ac yn dod at gasgliad ynghylch a yw'r prawf ar gyfer atgyfeirio o dan baragraff 23(2) o Atodlen 3 i'r PRA yn cael ei fodloni.

Ar gyfer achosion lle gwnaethpwyd cwyn neu pan ddaeth y mater ymddygiad i sylw'r AP cyn 29 Hydref 2026, mae'r prawf hwn yn ei gwneud yn ofynnol bod yr amodau canlynol yn cael eu bodloni:

- i) Mae'r adroddiad yn nodi y gallai trosedd fod wedi cael ei chyflawni gan berson (os o gwbl) y mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag; ac
- ii) mae'r amgylchiadau fel, ym marn y Cyfarwyddwr Cyffredinol, ei bod yn briodol i'r materion a ymdrinnir â nhw yn yr adroddiad gael eu hystyried gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.

Ar gyfer achosion lle gwnaed cwyn neu pan ddaeth y mater ymddygiad i sylw'r AP ar neu ar ôl 29 Hydref 2026, mae'r prawf hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r amodau canlynol gael eu bodloni:

- I) Mae'r adroddiad yn nodi bod digon o dystiolaeth i ddarparu posibilrwydd realistig o euogfarn am drosedd yn erbyn person (os o gwbl) mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag; ac
- II) mae'r amgylchiadau fel, ym marn y Cyfarwyddwr Cyffredinol, ei bod yn briodol i'r materion a ymdrinnir â nhw yn yr adroddiad gael eu hystyried gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.

Os nad yw'r adolygydd yn glir am unrhyw beth sy'n ymwneud â'r ymchwiliad, dylent ymgysylltu â'r tîm sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad yn y lle cyntaf.

Dylai'r adolygydd roi sylw i unrhyw sylwadau a gyflwynwyd gan y dioddefwr i gefnogi cais am adolygiad⁸. Pan fydd y dioddefwr wedi darparu tystiolaeth newydd, efallai bydd angen ystyried a oes angen ail-ymchwilio.

Os yw'r adolygydd o'r farn nad yw'r prawf ar gyfer atgyfeirio yn cael ei fodloni, yna bydd y penderfyniad arfaethedig i beidio â gwneud atgyfeiriad i'r CPS yn cael ei gadarnhau.

⁷ Darperir canllawiau ynghylch a yw penderfyniad yn 'anghywir' ymhellach isod.

⁸ Pan fydd y sylwadau hynny wedi'u cyflwyno 'ar amser'. Pan fydd sylwadau wedi cael eu derbyn yn hwyr, gellir eu hystyried, yn amodol ar ddisgresiwn yr adolygydd.

Os yw'r adolygydd o'r farn bod y prawf ar gyfer atgyfeirio yn cael ei fodloni, yna bydd yr adolygydd yn mynd ymlaen i ystyried y penderfyniad arfaethedig er mwyn penderfynu a yw'n anghywir.

Cam 2: A oedd y penderfyniad atgyfeirio gwreiddiol yn anghywir?

Nid yw penderfyniad o reidrwydd yn anghywir dim ond oherwydd bod yr adolygydd yn anghytuno. Wrth gyrraedd safbwynt ynghylch a yw'r penderfyniad yn anghywir, dylai'r adolygydd ystyried a yw unrhyw un o'r rhestr ddi-gynhwysfawr canlynol o ffactorau yn berthnasol:

- camgymeriad perthnasol wrth ddehongli'r dystiolaeth
- dehongliad neu gymhwysiad anghywir o'r gyfraith
- cymhwyso'r prawf o dan baragraff 23(2) o Atodlen 3 yn anghywir i'r PRA, neu fethiant i ddilyn canllawiau perthnasol IOPC ar y prawf hwnnw

Os yw'r adolygydd yn penderfynu nad yw'r penderfyniad arfaethedig yn anghywir, yna bydd y penderfyniad arfaethedig yn cael ei gadarnhau.

Os yw'r adolygydd yn penderfynu bod y penderfyniad arfaethedig yn anghywir, yna bydd penderfyniad newydd yn cael ei wneud i wneud atgyfeiriad at y CPS.

Os yw'r terfyn amser ar gyfer erlyn trosedd ddiannod wedi mynd heibio, ni fydd unrhyw atgyfeiriad yn bosib, a bydd angen ystyried y canlyniad priodol.

Cadw cofnodion

Rhaid i'r adolygydd gofnodi:

- pryd mae VRR wedi cael ei dderbyn
- eu penderfyniad, os yw'n berthnasol, ynghylch a ddylid ystyried cais y tu allan i'r terfyn amser;
- eu penderfyniad ynghylch a fydd mater yn cael ei atgyfeirio at y CPS, gyda rhesymeg cysylltiedig.

Bydd y dioddefwr yn cael ei hysbysu o'r penderfyniad terfynol ac yn darparu digon o wybodaeth i'w galluogi i ddeall y penderfyniad sydd wedi'i wneud. Bydd y prif ymchwilydd ar yr un pryd yn diweddarau'r AP, y testun ac unrhyw berson perthnasol arall o'r penderfyniad a'r rhesymeg.

Dylid hysbysu'r dioddefwr nad oes hawl i apelio nac adolygu'r penderfyniad hwn, heblaw trwy adolygiad barnwrol trwy'r llysoedd.

Nodi camau ymchwilio pellach a/neu wneud penderfyniadau anghywir

Mae'n bosib bod yr adolygydd, wrth gynnal eu adolygiad, yn nodi (i) camau ymchwilio pellach y maent yn ystyried y dylid eu cymryd; a/neu (ii) bod penderfyniadau a wnaethpwyd ynghylch materion disgyblu yn ymddangos i fod yn anghywir. Rhagwelir y bydd yr achosion hyn yn brin. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r adolygydd ystyried a allai ailagor y mater neu ail-ymchwilio iddo fod yn briodol.

Geirfa

Awdurdod Priodol (AP)

Y sefydliad sy'n gyfrifol am asesu sut i ddelio â chwyn. Er enghraifft, a ellir ei drin yn lleol neu a ydy'n cyrraedd y meini prawf ar gyfer atgyfeirio at IOPC. Gall yr awdurdod priodol fod yn brif swyddog yr heddlu neu'r comisiynydd heddlu a throsteddu ar gyfer y llu.

Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)

Y corff annibynnol sy'n gyfrifol am, ymhlith pethau eraill, benderfynu a ddylid dwyn cyhuddiadau troseddol yng Nghymru a Lloegr ac erlyn achosion yn y llys.

Safon Genedlaethol Cofnodi Troseddau (NCRS)

Y safon a ddefnyddir gan heddluoedd yng Nghymru a Lloegr i benderfynu a ddylid cofnodi digwyddiad fel trosedd.

Person perthnasol

Person heblaw'r dioddefwr, y testun neu'r Awdurdod Priodol lle ystyrir bod ganddo fuddiant cyfreithlon yn yr achos ac efallai y bydd angen ei hysbysu am benderfyniadau neu ddatblygiadau.

Terfyn amser statudol (STL)

Y terfyn amser cyfreithiol y mae'n rhaid cyhuddo troseddau penodol o'i fewn, yn enwedig troseddau diannod.

Testun yr ymchwiliad

Person sy'n cael ei ymchwilio am ymddygiad a allai fod yn drosedd neu a all gyfiawnhau dwyn achos disgyblu.

Troseddau diannod yn unig

Trosedd droseddol llai difrifol y gellir delio â mewn Llys Ynadon yn unig.

Cyhoeddwyd Awst 2026

© IOPC 2026



This is licensed under the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated.

This does not include material belonging to third parties.

Authorisation to use such material must be obtained from the copyright holders concerned.

I ddarganfod mwy am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn ar ffurf amgen, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)
10 South Colonnade Canary Wharf London E14 4PU

Ffôn: **0300 020 0096**

E-bost: enquiries@policeconduct.gov.uk

Gwefan: www.policeconduct.gov.uk/cy

Cyfnewid testun: **18001 020 8104 1220**

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Gymraeg, ni fydd oedi mewn ymateb

